Adroddiad ar

# Chestnut Hill School

Kinsale Hall
Llannerch-y-môr
Treffynnon
Sir y Fflint
CH8 9DX

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Chestnut Hill School

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Chestnut Hill School |
| Statws y perchennog | Perchennog Chestnut Hill School yw Outcomes First Group (Operations) 4 Limited ac mae'n is-gwmni a berchnogir yn llawn gan P Bloom Ltd, sy'n rhan o Outcomes First Group, sef darparwr gwasanaethau plant yn y Deyrnas Unedig. |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Ysgol arbenigol ADY annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Nac oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 16 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 15 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 05/02/2024 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/01/2025 |

Cyd-destun yr ysgol:

Mae Chestnut Hill School yn ysgol annibynnol sy'n cynnig addysg ar gyfer hyd at 30 o ddisgyblion rhwng 8 ac 19 oed sydd ag anghenion cymhleth ac wedi cael diagnosis o gyflwr y sbectrwm awtistig (CSA).

Mae 16 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, sydd wedi cael eu lleoli yno gan awdurdodau lleol o Gymru a Lloegr. Mae gan bob disgybl gynllun datblygu unigol (CDU) neu gyfwerth.

Mae pennaeth yr ysgol a'r pennaeth gweithredol wedi bod yn eu swydd er mis Medi 2024. Mae'r tîm addysg yn cynnwys 6 athro dosbarth, 11 cynorthwyydd addysgu a gweithiwr cymorth bugeiliol. Yn ychwanegol, mae gan yr ysgol dîm clinigol sy'n cynnwys therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol, seicolegydd cynorthwyol

a seicolegydd addysg. Mae’r pennaeth gweithredol hefyd yn goruchwylio Maple Grove School, sydd wedi’i lleoli ychydig dros y ffin yn Lloegr.

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu newidiadau sylweddol i strwythur ac arweinyddiaeth yr ysgol. Ym mis Awst 2024, caeodd yr ysgol bob un o’r cartrefi preswyl a oedd yn gysylltiedig â’r ysgol o’r blaen, ac ailstrwythurodd y ddarpariaeth addysgol, gan newid enw’r ysgol o Options Kinsale i Chestnut Hill. Dechreuodd Chestnut Hill School weithredu yn ei strwythur presennol ym mis Medi 2024. O ganlyniad, megis dechrau cael eu datblygu y mae llawer o’r systemau a’r prosesau.

## Crynodeb

Mae Chestnut Hill yn darparu amgylchedd dysgu meithringar a difyr lle mae staff yn dangos disgwyliadau uchel a dealltwriaeth ddofn o anghenion unigol disgyblion. Mae perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn meithrin cymuned ysgol hapus, ddiogel a chefnogol.

Bu'r ysgol trwy newidiadau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys newidiadau mewn arweinyddiaeth, newid o ysgol breswyl i ysgol ddydd, ac wedi gwneud adnewyddiadau mawr ar y safle. Mae arweinwyr wedi llywio'r datblygiadau hyn yn llwyddiannus tra'n cynnal gweledigaeth strategol glir a sicrhau cyn lleied o darfu ag y bo modd ar addysg disgyblion. Mae staff wedi addasu'n dda i'r newidiadau hyn, ac mae buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol wedi helpu cryfhau effeithiolrwydd yr addysgu a'r gofal bugeiliol.

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfnod pontio esmwyth ar gyfer disgyblion newydd, gan weithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr i greu profiadau dysgu teilwredig. Mae cyfathrebu effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad disgyblion, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd wedi cael trafferth mynychu'r ysgol yn gyson yn y gorffennol.

Mae'r cwricwlwm yn eang ac wedi'i strwythuro'n dda, gan arfogi disgyblion â medrau bywyd hanfodol a'u paratoi ar gyfer cyrchfannau yn y dyfodol. Mae gweithgareddau cyfoethogi a'r amgylchedd dysgu sy'n cynnwys adnoddau da yn ymestyn cyfleoedd dysgu.

Mae'r addysgu yn effeithiol, ac mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio'u gwybodaeth am ddisgyblion yn dda i gynllunio gwersi difyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu a chymdeithasol cryf, a llawer ohonynt yn gwneud cynnydd priodol mewn darllen ac ysgrifennu. Fodd bynnag, mae'r adborth ysgrifenedig yn anghyson, ac mewn ychydig o wersi, nid yw'r cymorth gan gynorthwywyr addysgu yn ddigon pwrpasol. Nid yw systemau olrhain ysgol gyfan i ddarparu trosolwg clir a strategol o gynnydd disgyblion dros gyfnod wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r cydweithio rhwng y tîm addysg a'r tîm clinigol yn gryfder sylweddol, ac mae therapyddion yn gweithio ochr yn ochr â staff i wella lles disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cymorth personoledig, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth ac anghenion ymlyniad, gan sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu targedau dysgu.

Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu, ac mae polisïau a hyfforddiant clir ar waith. Caiff llais y disgybl ei ymgorffori'n dda, ac mae cyngor ysgol gweithgar yn dylanwadu ar benderfyniadau. Mae arweinyddiaeth a llywodraethu yn gryf, ac arweinwyr yn rheoli newidiadau a gwelliannau diweddar yn llwyddiannus. Fodd bynnag, megis dechrau cael

eu datblygu y mae cyfleoedd i staff ymgymryd â rolau arwain i gefnogi gwelliant yr ysgol ymhellach.

Mae'r ysgol yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Prif werthusiad

Mae Chestnut Hill yn darparu amgylchedd dysgu meithringar a phwrpasol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae staff addysgu yn fodelau rôl egnïol ac effeithiol, gan ddangos disgwyliadau uchel a gwybodaeth helaeth am anghenion a diddordebau disgyblion. Mae perthnasoedd gwaith cryf a pharchus rhwng staff a disgyblion yn meithrin cymuned ysgol hapus, ddiogel a chefnogol.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfnod pontio esmwyth i'r ysgol, gydag ymyriadau teilwredig sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn setlo'n dda. Er enghraifft, mae staff yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr i greu amserlenni priodol, gan fod yn ystyriol o brofiadau addysgol blaenorol disgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu a chynnal perthnasoedd cryf â rhieni a gofalwyr, a chaiff y rhain eu cryfhau ymhellach gan benodiad yr arweinydd bugeiliol. Mae gohebiaeth electronig ddyddiol yn dathlu cyflawniadau ac yn rhannu gwybodaeth allweddol. Mae hyn yn atgyfnerthu partneriaethau rhwng y cartref a'r ysgol ac yn cyfrannu at ymgysylltiad gwell gan ddisgyblion, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd â hanes o bresenoldeb gwael.

### Cwricwlwm a chyfoethogi

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a strwythuredig sy'n arfogi disgyblion â medrau bywyd hanfodol ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer cyrchfannau ar ôl yr ysgol. Mae gweithgareddau cyfoethogi, sy'n cynnwys gwyddbwyll, crefftau a rygbi tag, yn ymestyn profiadau dysgu. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y mae llawer o'r gweithgareddau hyn wedi cael eu rhoi ar waith ac nid yw arweinwyr wedi gwerthuso'u heffaith lawn ar ddeilliannau disgyblion eto.

Mae'r amgylchedd dysgu, sy'n cynnwys adnoddau da, ac yn ddifyr, yn cefnogi dysgu'r disgyblion trwy ddarpariaethau amrywiol. Er enghraifft, mae'r ystafell drochi yn galluogi disgyblion i archwilio profiadau fel bod o dan y môr neu ryngweithio â storïau mewn ffordd amlsynhwyraidd.

Mae'r ysgol yn darparu ystod gynhwysfawr o gymorth arbenigol, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth neu broblemau ymlyniad. Ategir cynllunio gwersi a chynllunio'r cwricwlwm gan arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a dysgu wedi'i arwain gan gyrchfan.

Mae asesiadau gwaelodlin trawsgwricwlaidd cynhwysfawr yn darparu data i athrawon gynllunio nodau dysgu priodol a mesur cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei roi ar waith y mae hyn.

Mae'r rhan fwyaf o staff addysgu yn defnyddio'u gwybodaeth am ddisgyblion yn effeithiol i gynllunio tasgau difyr a phwrpasol sy'n meithrin agweddau a chynnydd cadarnhaol. Mae rheolaeth ddosbarth gref yn annog dyfalbarhad mewn gweithgareddau dysgu.

## Datblygiad Medrau

Mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion yn llwyddiannus i ddatblygu medrau allweddol trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle buddiol i ddatblygu eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cwmni ei gilydd mewn gwersi ac ym mistro'r ysgol, ac yn hyderus wrth gyfarfod ag ymwelwyr.

Mae ymagwedd strwythuredig at ddarllen ac ysgrifennu yn datblygu, ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu 'ffeithlenni' clir ar destunau fel moch cwta ac yn adrodd am ddigwyddiadau hanesyddol fel Brad y Powdwr Gwn. Mae disgyblion unigol yn darllen yn dda at ddiben yn eu gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Yn ychwanegol, mae ychydig o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus a gyda mynegiant.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi yn dda i gefnogi dysgu, yn enwedig yn unigol. Mae adborth llafar yn uniongyrchol, yn gadarnhaol ac yn gefnogol. Fodd bynnag, mae adborth ysgrifenedig yn anghyson ac nid yw bob amser yn rhoi camau nesaf clir i ddisgyblion.

At ei gilydd, mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio i sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn profiadau dysgu ac yn cael cymorth sensitif sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, ceir cymorth pwrpasol cyfyngedig gan gynorthwywyr addysgu.

## Cydweithio

Mae ymrwymiad cryf yr ysgol i ymgysylltu â disgyblion yn amlwg yn ei hymagwedd integredig at gymorth therapiwtig. Mae'r therapyddion amser llawn ar y safle yn cydweithio'n effeithiol â staff addysgu i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o anghenion disgyblion, modelu strategaethau effeithiol a gwella lles.

Mae disgyblion a staff yn elwa ar wasanaethau seicoleg personoledig a seicotherapi, tra bod rhaglen dysgu proffesiynol, gan gynnwys hyfforddiant mewn trawma ac awtistiaeth, yn cryfhau arbenigedd staff. Mae'r tîm clinigol yn darparu cymorth gwerthfawr i staff a theuluoedd, fel ei gilydd, gan sicrhau bod anghenion unigol disgyblion yn cael eu diwallu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu targedau dysgu.

## Diogelu a lles

Mae'r ysgol yn arddel ymagwedd ragweithiol a myfyriol at reoli ymddygiad, wedi'i chefnogi gan gydweithio cryf rhwng y tîm addysg a'r tîm clinigol. Mae cynlluniau dysgu personoledig a phartneriaethau agos â rhieni yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau hanfodol i ddeall, adnabod a rheoli eu hemosiynau a'u hymddygiadau. Mae systemau cofnodi effeithiol yn olrhain patrymau a thueddiadau, gan alluogi dealltwriaeth ddyfnach o ymddygiadau heriol.

Mae diwylliant diogelu cryf yn sail i arfer yr ysgol, gyda rolau clir, hyfforddiant strwythuredig, a pholisïau cadarn ar gyfer atgyfeirio, diogelwch ar-lein, ac ymyrraeth gorfforol. Datblygodd disgyblion, rhieni a staff bolisïau gwrthfwlio ac ymddygiad ar y cyd, sy'n atgyfnerthu parch, cynhwysiant ac ymwybyddiaeth o hawliau disgyblion yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Caiff diogelwch ar-lein ei gefnogi ymhellach gan bodlediadau wedi'u harwain gan y cyngor a gwasanaethau ar seiberfwlio.

## Llais y disgybl

Caiff llais y disgybl ac ymgysylltu â'r gymuned eu gwreiddio, gan feithrin ymdeimlad cryf o berchnogaeth ymhlith rhanddeiliaid. Mae disgyblion yn mynd ati i gyfrannu at fywyd yr ysgol, datblygu medrau arwain, ac ymgymryd â chyfrifoldebau.

Mae bron pob un o'r disgyblion o'r farn fod yr ysgol yn gwrando arnynt, trwy'r cyngor ysgol a staff ar bob lefel. Mae disgyblion etholedig yn falch o fod yn swyddogion y cyngor ysgol, gan gynrychioli eu cyfoedion yn dda, ac yn hynod weithgar wrth wneud penderfyniadau ar weithgareddau ysgol o ddydd i ddydd. Er enghraifft, yn ddiweddar, dechreuodd y disgyblion gynnal 'Dydd Mawrth Smwddi', sy'n galluogi disgyblion i brofi ffrwythau newydd ac ecsotig.

## Arweinyddiaeth a llywodraethu

Mae rolau uwch arweinyddiaeth yn Chestnut Hill wedi'u diffinio'n dda, ac yn alinio â chyd-destun ac arbenigedd yr ysgol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i staff ymgymryd â rolau ychwanegol yn datblygu o hyd. Er gwaethaf newidiadau arwyddocaol fel cau'r ddarpariaeth breswyl, newid i ysgol ddydd, a gwneud adnewyddiadau sylweddol i'r safle, mae arweinwyr wedi cynnal momentwm a gweledigaeth strategol glir. Mae arweinwyr yn cynnal presenoldeb gweledol, gan wasanaethu fel modelau rôl ar gyfer disgyblion a darparu cymorth gwerthfawr i staff.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu goruchwyliaeth gref, gan sicrhau ffocws clir ar addysg o ansawdd uchel. Mae llywodraethwyr, gan gynnwys y cadeirydd a'r tîm ansawdd a gwella, yn wybodus ac yn darparu her a chymorth effeithiol i arweinwyr. Mae strwythurau llywodraethu yn hyrwyddo atebolrwydd trwy gyfarfodydd a chydweithio rheolaidd ar draws y grŵp ysgol.

### Rheoli newid

Ers newid o Options Kinsale School i Chestnut Hill, mae arweinwyr wedi cynnwys staff yn effeithiol yn y broses newid, gan gryfhau eu hymdeimlad o ymglymiad a dealltwriaeth. Mae eu hymagwedd strategol at reoli newid wedi meithrin ethos tîm cryf, ac o ganlyniad, mae staff yn parhau i fod yn llawn cymhelliant ac yn ymatebol.

Mae buddsoddiad ariannol sylweddol gan y perchennog wedi golygu bod gwelliannau sylweddol wedi gallu cael eu gwneud i'r safle. Dywed staff eu bod yn teimlo'n fwy gwydn, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy, a'u bod yn falch o'u rolau. Mae cyfleoedd hyfforddi a chydnabyddiaeth helaeth wedi cryfhau morâl a thwf proffesiynol ymhellach.

Mewn cyfnod byr, mae arweinwyr wedi cryfhau sicrhau ansawdd trwy bolisïau wedi'u diweddaru a hunanwerthuso strwythuredig. Mae rhaglen o deithiau dysgu, arsylwadau gwersi, a dysgu proffesiynol, sy'n cael ei gweithredu'n dda, yn cefnogi cynllunio gwelliant. Mae arweinwyr, gyda chymorth gan y corff llywodraethol a'r partner gwella ysgolion, yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn effeithiol. Yn nhymor yr hydref, rhoddodd arweinwyr flaenoriaeth briodol i ymgorffori'r garfan a'r tîm staff newydd. O ganlyniad, megis dechrau datblygu y mae rhai o'r newidiadau.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn amlinellu blaenoriaethau allweddol, gyda diogelu, iechyd meddwl, a chynhwysiant yn themâu craidd. Trwy gymorth wedi'i reoli'n ofalus gan arweinwyr, mae staff yn cyfrannu'n ystyrlon at hunanwerthuso trwy gynlluniau gweithredu sy'n benodol i bwnc ac mae ganddynt ddealltwriaeth gref o flaenoriaethau'r ysgol. O ganlyniad, caiff arweinwyr a staff safbwynt cywir ar gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, sy'n ffurfio model yr ysgol sy'n esblygu yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn yr ysgol yn datblygu systemau olrhain buddiol i fonitro a gwerthuso cynnydd disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn mesur dealltwriaeth disgyblion trwy fonitro dysgu a chynnydd disgyblion yn ofalus. Fodd bynnag, nid yw prosesau i sicrhau trosolwg ysgol gyfan i werthuso cynnydd wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Diogelu

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Mireinio ac ymgorffori systemau olrhain ysgol gyfan ymhellach i ddarparu trosolwg cynhwysfawr a strategol o gynnydd disgyblion dros gyfnod

A2 Datblygu cyfleoedd strwythuredig i staff ymgymryd â rolau arwain ar draws yr ysgol i gefnogi gwelliant ysgol a chynllunio olyniant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Dylai hefyd rannu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, â'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu'r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2025